



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad:

Canlyniadau'r Ymgynghoriad – Cymraeg i Oedolion

Rhagfyr 2023

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
2. Methodoleg.....	1
3. Proffil yr ymatebwyr	2
4. Canlyniadau.....	3
4.1 Ymatebion i Gynigion	3
5. Y Camau Nesaf.....	14

Canlyniadau'r Ymgynghoriad – Cymraeg i Oedolion

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r ymgynghoriad ar y trefniadau arolygu ar gyfer y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion.

2. Methodoleg


Roedd yr ymgynghoriad ar ffurf holiadur a oedd ar gael i'w llenwi naill ai ar-lein neu all-lein (dogfen PDF i'w llenwi a'i dychwelyd drwy'r e-bost neu drwy'r post). Lansiom yr arolwg ar 29 Medi 2023 ac fe gaeodd ar 30 Tachwedd 2023.

Cafodd yr ymatebion i'r cwestiynau testun rhydd eu grwpio'n themâu. Mae ymatebion cyffredin wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn i gyfleu'r themâu allweddol sy'n gysylltiedig â phob cwestiwn – er, mae niferoedd yr ymatebion testun rhydd yn nodweddiadol isel ac nid ydynt o reidrwydd yn gynrychiolaidd o'r boblogaeth gyfan. Fe wnaeth y rhain gynnwys cymysgedd o ddyfyniadau uniongyrchol ac aralleirio (lle y cafodd elfennau o nifer o ymatebion eu crynhoi). Dilynwyd Arweiniad Ysgrifennu Estyn wrth ddisgrifio cyfrannau'r ymatebion (e.e. mae 'ychydig' yn cyfateb i lai nag 20% o ymatebwyr).

3. Proffil yr ymatebwyr

Cawsom gyfanswm o 16 ymateb i holiadur yr ymgynghoriad. Darparodd yr holl ymatebwyr ymatebion i'r holl 'gwestiynau dewislen' (h.y. y cwestiynau â set o atebion wedi'u diffinio ymlaen llaw). Roedd nifer yr ymatebion i gwestiynau testun rhydd unigol yn amrywio o 2 i 9 (h.y. 13% i 56% o ymatebwyr). Bydd y cyfraddau ymateb penodol yn cael eu cynnwys wrth drafod cwestiynau unigol trwy gydol yr adroddiad.

Ffigur 1: Dewiswch un opsiwn isod sy'n disgrifio orau ym mha rinwedd rydych chi'n llenwi'r holiadur hwn.



O ystyried y gyfran uchel o ymatebion a roddwyd gan ddysgwyr, rydym wedi nodi'r holl wahaniaethau arwyddocaol i'r ymatebion i bob cwestiwn unigol rhwng dysgwyr a gweithwyr proffesiynol – er y gall dibynadwyedd cymariaethau o'r fath fod yn gamarweiniol oherwydd y niferoedd isel iawn (7 dysgwr, 9 gweithiwr proffesiynol)

4. Canlyniadau

4.1 Ymatebion i Gynigion

Yn gyntaf, gofynnem i ymatebwyr beth oedd eu barn ar y cynnig canlynol: **Rydym yn ystyried defnyddio ystod fwy o fodelau arolygu yn ystod ein cyfnod arolygu nesaf o chwe blynedd, o fis Medi 2024. Byddwn yn dweud mwy wrthy ch am bob un o'r rhain isod, ond rydym yn ystyried cyfuniad o 3 model gwahanol:**


- Arolygiad llawn o sampl o ddarparwyr Dysgu Cymraeg.
- Darpariaeth flynyddol o samplau arolygu â thema ar draws nifer o ddarparwyr Dysgu Cymraeg.
- Arolygiad o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Rydym yn cynnig cynnal arolygiadau llawn o sampl o ddarparwyr Dysgu Cymraeg yn ystod y cylch.

Byddwn wedi arolygu'r holl ddarparwyr Dysgu Cymraeg erbyn diwedd y cylch presennol ac wedi sefydlu gwaelodlin ansawdd. O fis Medi 2024, nid ydym yn bwriadu parhau i gynnal arolygiad llawn o bob darparwr Dysgu Cymraeg. Rydym yn meddwl ei bod yn fuddiol cynnal arolygiadau llawn mewn sampl o ddarparwyr Dysgu Cymraeg i helpu creu darlun cenedlaethol o ddarpariaeth ac effeithiolrwydd y Ganolfan Genedlaethol. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cynnal tua phedwar arolygiad llawn yn ystod cyfnod o chwe blynedd. Rydym yn meddwl y bydd y newid hwn yn creu amser i ni wneud mathau eraill o waith arolygu, a ddisgrifir yn fanylach mewn cwestiynau dilynol.

Ffigur 2: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?

Rydym yn ystyried defnyddio ystod ehangach o fodelau arolygu yn ystod ein cyfnod arolygu nesaf o chwe blynedd, o fis Medi 2024.



Cafwyd lefel dda o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 69% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Roedd 13% o'r rhai a atebodd yn anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno), gyda 19% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng yr ymatebion a ddarparwyd gan ddysgwyr a gweithwyr proffesiynol.

Darparodd 9 o 16 (56%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Dim ond un pwnc cafodd ei grybwyll mewn mwy nag un sylw (2 o 9 – 22%), lleiafrif o'r sylwadau: *Mae'n ymddangos braidd yn annheg i'r pedwar darparwr sy'n cael eu dewis. Mae'r arolygiadau llawn hyn yn rhoi gormod o bwysau a straen ar y darparwyr.*

Cododd y sylwadau eraill y pwyntiau canlynol (crybwyllwyd pob un ohonynt 1 allan o 9 – 11%):

- *Mae'n bwysig cael darlun cenedlaethol.*
- *Rwy'n cymryd yr yn ganiataol y bydd y 4 darparwr arall yn cael eu dewis yn y cylch dilynol.*
- *Pa mor hyderus y gallwch fod y bydd cynnal arolygiadau sampl yn sicrhau bod sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael addysgu o'r un ansawdd?*
- *Yr unig sylw sydd gennym yw ymarferoldeb defnyddio arolygwyr cymheiriaid yn yr arolygiadau thematig h.y. a oes digon ohonynt?*
- *Wrth gwrs, bydd yn dibynnu at beth rydych chi'n defnyddio'r amser hwn, ond gallai'r amser ychwanegol sy'n cael ei greu trwy beidio ag arolygu pob rhanbarth ganiatáu i chi ymchwilio'r ffordd orau o fod yn hyblyg yn ystod yr*


arolygiadau hynny y gwnewch, gan roi adborth i'r rhai sydd islaw'r safon yn eich tyb chi a gwella trwy ddefnyddio achosion y rhanbarthau gwell i lywio'r rhanbarthau islaw'r safon a darparu cyfleoedd dilyn i fyny.

- *Rydyn ni'n buddsoddi'n helaeth fel cenedl yn hyn a byddai'n dda gwybod i ba raddau y mae ansawdd a chysondeb yn cael eu darparu drwyddi draw. Mae fy mhrofiadau i o Dysgu Cymraeg ar-lein wedi bod yn rhagorol ond rwy wedi clywed gan ddysgwyr eraill nad yw eu profiadau nhw mor gadarnhaol.*
- *Mae cwmpas gwaith y Ganolfan wedi newid, a bydd yn newid, yn barhaus a byddem yn awyddus i elwa o gyfraniad Estyn at y gwaith hwnnw trwy arolygon thematig.*

Yna, gofynnem i ymatebwyr beth oedd eu barn ar y cynnig canlynol: **Ar gyfer yr arolygiadau llawn hyn, rydym yn cynnig lleihau'r fframwaith arolygu o 5 i 3 maes arolygu.**

Mae ein fframwaith arolygu presennol yn cynnwys 5 maes arolygu. Bydd lleihau i 3 maes arolygu yn ein helpu i greu cysylltiadau gwell rhwng ansawdd y gwaith a'r effaith ar gyfer dysgwyr. Mae hefyd yn ein helpu i osgoi rhywfaint o ddyblygu yn ein harweiniad a'n hadroddiadau.

Ffigur 3: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?



Cafwyd lefel gref o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gydag 81% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Roedd 13% o'r rhai a atebodd yn anghytuno'n gryf â'r cynnig, gyda 6% yn ansicr neu heb farn.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng yr ymatebion a ddarparwyd gan ddysgwyr a gweithwyr proffesiynol.


Darparodd 5 o 16 (31%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Y thema fwyaf cyffredin (3 o 5 – 60%) oedd cytundeb fod y cynnig hwn yn *glir ac yn gwneud synnwyr*.

Cafwyd 1 sylw yn gofyn *oni all MA2 a MA3 gael eu cyfuno?*

Yna, gofynnem am y farn ar y datganiad canlynol: **Ar gyfer arolygiadau llawn, rydym yn cynnig dileu'r defnydd o raddau crynodol.**

Rydym yn cynnig dileu'r defnydd o raddau crynodol, fel 'Da'. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymagwedd ar draws bron holl waith arolygu Estyn. Rydym hefyd o'r farn fod hyn yn deg i bob darparwr os byddwn yn samplu darparwyr ar gyfer arolygiad llawn. Byddwn yn parhau i ysgrifennu am gryfderau a meysydd i'w gwella unrhyw ddarparwr yn ein hadroddiadau.

Ffigur 4: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?



Cafwyd lefel gref o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 88% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Roedd 6% o'r rhai a atebodd yn anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno), gyda 6% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng yr ymatebion a ddarparwyd gan ddysgwyr a gweithwyr proffesiynol.


Darparodd 5 o 16 (31%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Mae mwyafrif y sylwadau (4 o 5 – 80%) yn gwbl gefnogol: *mae angen i'r ffocws fod ar dargedu meysydd i'w gwella ochr yn ochr ag amlygu cryfderau. Bydd agwedd lai barnllyd yn dileu'r 'ofn' ac yn caniatáu am ddeialog mwy rhydd ac ystyrlon ac, felly, gwelliannau/newidiadau.*

Datganodd yr un sylw a anghytunodd â'r cynnig: *Gwan ac annoeth, a bod yn gwbl onest, yw dileu'r farn glir a dealladwy y mae Estyn (ac Ofsted) wedi'i defnyddio cystal ers cyhyd ar sail un erledigaeth yn y cyfryngau.* Er bod barnau wedi parhau i gael eu defnyddio yn ein harolygiadau Cymraeg i Oedolion, rydym wedi'u dileu mewn llawer o sectorau eraill dros y 4 blynedd diwethaf.

Yna, gofynnem am y cynnig: **Rydym yn cynnig cynnal arolygiadau blynyddol â thema.**

Bydd hyn yn brif ffocws ein gweithgarwch arolygu gyda'r sector. Bob blwyddyn, byddwn yn llunio adroddiadau cenedlaethol ar ystod o themâu sy'n berthnasol i'r sector gyda'r nod o amlygu arfer effeithiol a helpu'r sector i wella. Byddwn yn ymweld â sampl o ddarparwyr neu'n cynnal arolwg ohonynt fel rhan o'r gwaith hwn, a byddwn fel arfer yn ymweld â'r holl ddarparwyr o leiaf ddwywaith yn ystod cyfnod o 3 blynedd. Ein nod fydd cadarnhau ein thema / themâu ar gyfer pob blwyddyn academaidd yn ystod tymor yr haf blaenorol.

Ffigur 5: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?



Cafwyd lefel dda o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 63% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Roedd 6% o'r rhai a atebodd yn anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno), gyda 31% ddim yn cytuno nac yn anghytuno 31%.

Roedd dysgwyr yn fwy tebygol na gweithwyr proffesiynol o fod yn 'ansicr neu heb fod â barn' ar y cynnig hwn.


Darparodd 6 o 16 (38%) o ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Datganodd hanner y sylwadau eu bod yn *cytuno – ond heb weld y themâu eto. A fydd opsiwn i adolygu a chytuno ar y themâu hynny gydag Estyn?*

Datganodd lleiafrif (2 o 6 - 33%) fod 2 arolygiad mewn cyfnod 3 blynedd yn ymddangos yn faich cynyddol ar y darparwyr.

Yna, gofynnem am farn ar y canlynol: **Rydym yn cynnig defnyddio tystiolaeth o'n harolygiadau thema i gyhoeddi gwerthusiad o waith pob darparwr Dysgu Cymraeg bob tair blynedd.**

Yn unol ag egwyddor canolbwyntio adnoddau ar welliant parhaus, rydym yn cynnig ymweld â phob darparwr o leiaf ddwywaith bob 3 blynedd yn ystod gweithgarwch arolygu â thema. Bydd darparwyr yn derbyn llythyr yn amlinellu ein gwerthusiadau o agweddau penodol ar eu gwaith ar ddiwedd pob cyfnod o 3 blynedd. Rydym yn cynnig cyhoeddi'r llythyr hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod darparwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill yn derbyn gwerthusiad o effeithiolrwydd y ddarpariaeth, yn lle arolygiad llawn.

Ffigur 6: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?



Cafwyd lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 69% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno).

Roedd gweithwyr proffesiynol yn fwy tebygol na dysgwyr o fod yn 'ansicr neu heb fod â barn' ar y cynnig hwn.


Darparodd 4 o 16 (25%) o'r ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod, er y gwnaethant ganolbwyntio ar bynciau gwahanol:

- *Mae tryloywder yn allweddol.*
- *Nid wyf yn siŵr sut y bydd darllen y ddogfen hon yn helpu dysgwyr mewn unrhyw ffordd.*
- *A fydd darparwyr yn cael digon o rybudd ymlaen llaw am y themâu cytunedig?*
- *Rydym ni'n hapus i fod yn hyblyg ac addasu ein prosesau o gwmpas y cynnig hwn.*

Yna, gofynnem am farn ar y canlynol: **Rydym yn cynnig parhau i arolygu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o leiaf unwaith yn ystod y cylch a pharhau i adrodd heb raddau crynodol.**

Erbyn diwedd y cylch presennol, byddwn wedi arolygu'r Ganolfan Genedlaethol ddwywaith. Ar hyn o bryd, nid ydym yn cymhwyso graddau crynodol yn yr arolygiadau hyn. Rydym yn cynnig parhau i arolygu heb gymhwyso graddau crynodol. Byddwn yn arolygu'r Ganolfan Genedlaethol o leiaf unwaith yn ystod cylch 2024-2030. Bydd arolygiadau o'r Ganolfan Genedlaethol yn adeiladu ar y dystiolaeth o arolygiadau thema ac unrhyw arolygiadau llawn o ddarparwyr unigol.

Ffigur 7: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?



Cafwyd lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gydag 88% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Ni anghytunodd unrhyw un â'r cynnig.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng yr ymatebion a ddarparwyd gan ddysgwyr a gweithwyr proffesiynol. Dim ond 2 o 16 (13%) o ymatebwyr a roddodd farn ac a ddatganodd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod:


- *Mae'n bwysig edrych ar y sector yn ei gyfanrwydd.*
- *Rydym yn croesawu parhau â'r dull hwn.*

Yna, gofynnem am farn y canlynol: **Rydym yn cynnig defnyddio arolygwyr cymheiriaid yn yr holl arolygiadau llawn ac arolygiadau thema, ond yn parhau i beidio â'u defnyddio yn arolygiadau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**

Rydym yn gwerthfawrogi mewnwelediadau pwysig ymarferwyr presennol i'n gwaith arolygu. Rydym hefyd yn cydnabod bod arolygwyr cymheiriaid hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu am arolygu, ac arsylwi arfer mewn darparwyr eraill. Hoffem barhau i ddefnyddio arolygwyr cymheiriaid o fewn arolygiadau llawn ac arolygiadau thema.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn ariannu ac yn sicrhau ansawdd gwaith yr holl ddarparwyr Dysgu Cymraeg. Ar hyn o bryd, nid ydym yn defnyddio arolygwyr cymheiriaid o ddarparwyr Dysgu Cymraeg ar ein harolygiadau o'r Ganolfan Genedlaethol oherwydd achos o wrthdaro buddiannau. Rydym yn cynnig parhau â'r arfer hon.

Ffigur 8: Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?



Cafwyd lefel o gefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 69% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Anghytunodd 13% o'r rhai a atebodd â'r cynnig.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng yr ymatebion a ddarparwyd gan ddysgwyr a gweithwyr proffesiynol.

Darparodd 5 o 16 (31%) o'r ymatebwyr farn a datganwyd y rheswm/rhesymau pam y dewisont yr opsiwn uchod. Dywedodd llawer o sylwadau (4 o 5 - 80%) fod *Arolygwyr Cymheiriaid yn rhoi lefel ddefnyddiol tu hwnt o fewnwelediad unigryw a dylid annog eu defnyddio. Er bod rhesymau ymarferol a chost pam nad all hyn fod yn bosibl bob amser.*

Yna, gofynnem am y farn ar y canlynol:

9. Ar ddechrau'r ymgynghoriad hwn, cydnabuom fod angen i'n gwaith arolygu addasu i ddarparu cymorth a chraffu digonol ar gyfer sector sy'n esblygu'n gyflym. Pa mor dda ydych chi'n meddwl y bydd ystod y modelau arolygu rydym yn eu hystyried yn ein cynorthwyo i:

- **roi sicrwydd am ansawdd y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg**
- **cefnogi gwelliant parhaus**
- **rhannu arfer orau o fewn Cymraeg i Oedolion ac ar draws sectorau addysg a hyfforddiant eraill**
- **canolbwyntio ar werthuso mentrau caffael iaith sy'n ganolog i lwyddiant Cymraeg 2050**

Defnyddiwch y blwch isod i roi eich barn i ni:

Darparodd 9 o 16 (36%) o ymatebwyr farn am y mater hwn.

Mae 7 o'r 9 (78%) yn cytuno y bydd ystod y modelau arolygu rydym yn eu hystyried yn gynorthwyol. Yn benodol:

- *Yn sicr, mae'n well gennym y defnydd o gryfderau a chyfleoedd yn hytrach na disgrifiadau gradd fel 'da'.*
- *Fy mhrofiad i yw bod arolygiadau'n fwy gwerthfawr pan fyddant yn cefnogi yn hytrach nag yn cosbi.*
- *Cefnogi gwelliant parhaus sydd ar flaen fy meddwl i.*
- *Bydd cael adroddiadau â thema a golwg ar y ddarpariaeth yn unig yn gyfrwng i hysbysu dysgwyr a gwella'r ddarpariaeth.*

Yna, gofynnem am farn ar y canlynol:

10. Rydym wedi ymrwymo i wella'r ffordd rydym yn gweithio, ac mae gennym ddi-ddordeb yn eich barn ar sut gallwn ni wneud ein gwaith yn fwy effeithiol. Defnyddiwch y blwch isod i roi adborth ar unrhyw agweddau eraill ar drefniadau arolygu Estyn.

Dim ond 2 o 16 (24%) o ymatebwyr roddodd adborth:

- *Arbedwch yr arian, osgowch y straen y mae'n ei achosi i'r darparwyr, yn hytrach, gadewch i ganolfannau wneud hunanasesiadau.*
- *Rydym wedi mwynhau perthynas gadarnhaol ag Estyn, ac rydym yn hyderus y bydd hyn y parhau.*

Yna, gofynnem:

11. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol: Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Darparodd 4 o 16 (25%) o'r ymatebwyr farn.

- *Ni fydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r meysydd penodol hyn o gwbl, yn fy marn i. Fodd bynnag, rwy'n meddwl y bydd yn gwella'r ddarpariaeth ac, felly, bydd o fudd i'r rhai sy'n dewis gwella'u medrau Cymraeg neu ddechrau dysgu'r Gymraeg o'r dechrau.*
- *Rwy'n credu bod yr hyn sy'n cael ei wneud gan y sector Dysgu Cymraeg yn arwain y ffordd ym maes dysgu oedolion, ond hefyd mewn dysgu Cymraeg. Mae'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig yn creu siaradwyr a defnyddwyr y Gymraeg ac mae hynny'n hanfodol wrth anelu at y filiwn o siaradwyr.*
- *Mae niferoedd "Cymraeg i Oedolion" yn fach tu hwnt, mor fach fel mai prin maent yn ddigon uchel i gael eu hystyried yn ganran yn y cyfrifiad (ac mae'r niferoedd sy'n dod yn rhugl yn yr iaith yn llai fyth).*
- *O fewn Cymru, rwy'n credu bod y Gymraeg yn aml yn cael ei thrin yn fwy ffafriol na'r Saesneg.*

Y cwestiwn olaf oedd:

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng gwahanol bobl. Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Dim ond un ymateb a ddarparwyd:

- *Nid wyf o'r farn y byddai unrhyw effaith o gwbl ar y materion hyn.*

5. Y Camau Nesaf

Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn helpu i lywio'r trefniadau arolygu newydd o 2024 ymlaen ar gyfer y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion.